Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl332

**Amseru: Brys**

**Teitl: Cyllid ar gyfer ailgomisiynu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae CHTh yn cyfrannu swm blynyddol o £215,000 tuag at wasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 2 a gomisiynir ar y cyd ledled ardal bwrdd iechyd Hywel Dda. Gwneir hyn mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Daw'r cytundeb presennol i ben ym mis Ebrill 2025 ac mae gweithgor wrthi'n cynllunio ar gyfer ailgomisiynu'r gwasanaeth hwn.

Rhaid sefydlu'r gyllideb ar gyfer y cytundeb cyn yr ymarfer tendr, a gofynnwyd i bob parti barhau â'r ymrwymiadau ariannol presennol er mwyn caniatáu ar gyfer ailgomisiynu'r gwasanaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi'r galw a brofir gan y gwasanaeth yn ystod oes y cytundeb presennol a bydd adolygiad o'r fanyleb gan bob partner yn digwydd yn ystod yr haf. Bydd hyn yn cynnwys ystyried buddsoddiadau gan bob partner ar draws cylch gorchwyl y Bwrdd Cynllunio Ardal a gwerthuso gwerth presennol y cytundeb.

Argymhellir bod CHTh yn ymrwymo i'r lefel bresennol o £215,000 y flwyddyn o leiaf er mwyn galluogi'r gwasanaeth hollbwysig hwn i barhau. Ystyrir mwy o ofynion yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarperir gan y tîm Bwrdd Cynllunio Ardal.

**Argymhelliad:**
Ymrwymo i gyfrannu swm blynyddol o £215,000 ar gyfer ailgomisiynu'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn ardal Hywel Dda ar gyfer cyfnod cychwynnol o 3 blynedd ynghyd â 2 estyniad blynyddol goddefol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 21/3/2024**